

CYNAN DINDAETHWY (bu farw 816), tywysog

Enw: Cynan Dindaethwy

Dyddiad marw: 816

Plentyн: Esyllt ferch Cynan Dindaethwy

Rhiant: Rhodri Molwynog

Rhyw: Gwryw

Gawedigaeth: tywysog

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: John Edward Lloyd

Yn ôl yr achau hynaf yr oedd yn fab **Rhodri**, wyr **Cadwaladr** (bu farw 664). A chofio, foddy bynnag, i **Rodri (Rhodri Molwynog)**, fel rheol farw yn 754 ac mai yn 813 y sonnir gyntaf am Gynan, rhaid ystyried yr ach yn wallus. Mewn cysylltiad â ymgais â **Hywel** (brawd iddo, yn ôl **Dr. David Powell**) i'w gyfrif yn bennaeith Môn y daw enw Cynan i dudalennau hanes. Yn 814, **Hywel** a orfu; enillodd Cynan yr ynys yn ôl yn 816, eithr bu farw'r flwyddyn honno. Yn ôl hanes bywyd **Gruffydd ap Cynan**, ei ddisgynnnydd, o Gastell Dindaethwy yr oedd Cynan; barnwyd mai'r amddiffynfa sydd ar fryn gerllaw Plas Cadnant ym mhlwyf Llandysilio oedd y lle hwnnw. Gadawodd ferch o'r enw Ethyllt (am y ffurf gweler **Rhys**, *Celtic Folklore*, 480, n.) a ddaeth yn fam **Merfyn Frych** (bu farw 844) ac felly'n gychwynnydd llinach brenhinol Gwynedd a Deheubarth yn y Canol Oesoedd.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), 231, 323

An Inventory of the Ancient Monuments in Anglesey (1937), ciii

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cynan Dindaethwy](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2670643](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaid Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbarwr
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government